# Trosolwg o'r Wers: Trwbl Dwbl

| | | |
|---|---|---|
| EDEFYN: | Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol | Disgrifiad o'r wers:<br>Defnyddir amrywiaeth o weithgareddau i annog disgyblion i feddwl am risgiau yfed Alcohol gan gynnwys clipiau fideo sy'n cyflwyno canlyniadau camddefnyddio alcohol. Bydd effeithiau ymosodiadau â gwydrau ac ymosodiadau corfforol eraill yn cael eu trafod yn ogystal â'r posibilrwydd o farwolaeth. Bydd y disgyblion yn darganfod sut y gallant leihau'r risg i'w diogelwch personol ac i le i fynd i gael cyngor a chymorth. |
| CYFNOD ALLWEDDOL: | KS3 | |
| GWERS: | Trwbl Dwbl | |

## NOD

- Gwybod beth yw risgiau a chanlyniadau defnyddio Alcohol

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh 2008

- Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol S(DM)
- Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol S(DC)
- Cael mynediad i ystod briodol o ffynonellau er mwyn cael cymorth, cefnogaeth a chyngor S(GGE)
- Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill Y(DW)
- Dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach Y(LLIE)
- Deall yr effeithiau ar peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon ar gyfraith sy'n rheoli eu defnydd Y(LLIE)
- Ddatblygu agweddau cadarnhaol atynt eu hunain ac at bobl eraill Y(ILIE)
- Deall sut i ddefnyddio Alcohol mewn modd cyfrifol a pheryglon goryfed mewn pyliau Y(ILIE)
- Deall y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn ei barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig a sefyllfaoedd bywyd Y(DMY)

## AMCANION Y WERS

- Gwybod beth yw risgiau a chanlyniadau defnyddio Alcohol.
- Gwneud penderfyniadau a dewisiadau yn effeithiol.
- Gwybod o ble i gael help, cefnogaeth a chyngor

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Alcohol    yfed sbri    diod wedi'i sbeicio

## DULL

- Cytuno ar y Rheolau Euraidd.
- Rhoi amlinelliad clir o gytundeb cyfrinachedd y dosbarth
- Sicrhau bod elfennau sy'n cysylltu â gwersi eraill yn cael eu trafod.
- Arddangos ac egluro'r amcanion dysgu a'r geiriau allweddol.
- Cyflwyniad, i gynnwys diffiniad o Alcohol
- Gweithgaredd lluniau i ailedrych **yn fyr** ar gryfder Alcohol a mesuriadau mewn unedau
- Rhoi darlun a diffiniad o yfed sbri.
- Gwaith grŵp – cwblhau diagram pry cop: peryglon yfed Alcohol.
- Dangos a thrafod clipiau fideo 'Trwbl Dwbl' 1 a 2
- Faint o amser sydd ei angen i sbeicio diod? Clip fideo 3.
- Gwaith grŵp – senarios

## ADNODDAU

- Cyflwyniad PowerPoint 'Trwbl Dwbl'
- Geiriau Allweddol
- Cardiau cryfder Alcohol a mesurau unedau
- Diffiniadau Alcohol, yfed sbri a sbeicio diodydd
- Siart troi, pinnau ysgrifennu
- Clipiau fideo Trwbl Dwbl x 3
- 6 set o gardiau senario
- Taflen wybodaeth am y gyfraith a llinell gymorth camddefnyddio sylweddau (i'w rhoi i'r disgyblion)

## GWEITHGAREDDAU DILYNOL AR GYFER ATHRAWON

Am wybodaeth fanwl ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau dilynol gweler yr adran ar gyfer athrawon yn www.schoolbeat.org


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
TARIAN